# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# Y CABINET

# DYDD MERCHER, 17 TACHWEDD 2021

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr: E.V.Latham, P.A. Rees (Chairpersons for part of the meeting), L.Jones, A.R.Lockyer, A.Wingrave, C.Clement-Williams, D.Jones ac M.Harvey

**Swyddogion yn bresennol:**

K. Jones, N.Pearce, A.Thomas, A.Jarrett, H.Jones, J.Hodges, C.Furlow-Harris, L.Beynon, R.Headon, C.Plowman and T.Davies

**Gwahoddedigion:**

Cynghorwyr S. Freeguard (Is-gadeirydd craffu)

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd penodi'r Cynghorydd E V Latham yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CROESO A GALW'R ENWAU.**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a galwyd yr enwau.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd E V Latham | Parthed: Eitem Frys - Cronfa Gymunedol yr Aelodau. Roedd y cais yn Atodiad E yn gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr E |

| | |
|---|---|
| | V Latham, M Crowley a S Pursey ar gyfer adnewyddu ac addasu'r ardal sydd ar hyn o bryd yn gyrtiau tenis ym Mharc Vivian, Sandfields. Teimlai fod y buddiant yn niweidiol a gadawodd y cyfarfod. |
| Y Cynghorydd L Jones | Parthed: Eitem Frys - Cronfa Gymunedol yr Aelodau Roedd y cais yn Atodiad J yn gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd L Jones i gaffael cyfleusterau newid ar ffurf caban symudol ar gyfer timau hŷn ac iau Clwb Rygbi a Chlwb Pêl-droed Tonna. Teimlai fod y buddiant yn niweidiol a gadawodd y cyfarfod. |

4. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2021/2022**

Nodi'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2021/2022.

6. **CYFRIFO SYLFAEN TRETH Y CYNGOR AR GYFER 2022/23**

**Penderfyniadau:**

Cymeradwyo'r Sylfaen Treth y Cyngor net ar gyfer 2022/2023 sef 48,393.68 ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gyfan; ac ar gyfer pob ardal Cyngor Tref a Chymuned mae'r swm fel a ganlyn:

| Cynghorau Tref a Chymuned | Sylfaen Treth y Cyngor |
|---|---|
| Blaengwrach | 375.46 |
| Blaenhonddan | 4,407.30 |
| Llansawel | 1,885.44 |
| Clun a Melin-cwrt | 262.09 |
| Coedffranc | 3,649.67 |
| y Creunant | 682.56 |
| Dyffryn Clydach | 1,325.83 |
| Glyn-nedd | 1,378.55 |
| Castell-nedd | 6,580.96 |
| Onllwyn | 381.61 |
| Pelenna | 399.06 |

| Cynghorau Tref a Chymuned | Sylfaen Treth y Cyngor |
|---|---|
| Resolfen | 735.43 |
| Blaendulais | 633.67 |
| Tonna | 967.74 |
| Cilybebyll | 2,000.13 |
| Cwmllynfell | 386.88 |
| Gwauncaegurwen | 1,346.70 |
| Pontardawe | 2,532.95 |
| Ystalyfera | 1,607.20 |

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Galluogi'r cyngor i bennu Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2022/2023.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Dylid rhoi'r penderfyniadau ar waith ar unwaith.

7. **MONITRO'R GOFRESTR RISGIAU 2021/2022**

**Penderfyniad:**
Nodi'r risgiau fel y'u nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

8. **DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL Y CABINET AR GYFER CHWARTER 1 (1 EBRILL 2021 - 30 MEHEFIN 2021)**

**Penderfyniad:**
Dylid nodi'r adroddiad.

9. **ADRODDIAD BLYNYDDOL STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG 2020/2021**

**Penderfyniad:**
Nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu yn Strategaeth Hybu'r Gymraeg ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2020 a mis Mawrth 2021.

10. **CYNLLUN DYLETSWYDD BIOAMRYWIAETH LLEOL 2021**

**Penderfyniadau:**
Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, argymell y canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo.

1. Y Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth (2020 - 2023) fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Rhoi'r gweithdrefnau cyhoeddi ar waith fel y manylir arnynt yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

3. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd i wneud y trefniadau angenrheidiol i'r cyngor ddod yn llofnodwr Datganiad Caeredin ar Fioamrywiaeth Fyd-eang.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**
Galluogi'r cyngor i gydymffurfio â gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a chydnabod rôl allweddol y cyngor o ran gweithredu ar lefel leol ar gyfer natur, gan gefnogi'r egwyddorion a nodir yn Natganiad Caeredin.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**
Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**
Mae'r cynllun wedi bod yn destun ymgynghoriad mewnol ac mae ei ffurf derfynol yn adlewyrchu canlyniad y broses honno. Nid oedd yn ofynnol ymgynghori'n allanol.

11. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r materion sydd wedi'u cynnwys yng Nghofnod Rhif 11 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi hyn yn y cyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Adran 100B (4) () o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Rheswm:**
Oherwydd yr elfen amser.

12. **CRONFA GYMUNEDOL YR AELODAU**

Ar y pwynt hwn, ailbwysleisiodd y Cynghorwyr E V Latham ac L Jones eu buddiannau a gadawsant y cyfarfod. Penodwyd y Cynghorydd Peter Rees yn Gadeirydd am weddill y cyfarfod.

**Penderfyniadau:**
Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Sgrinio Integredig,

cymeradwyo'r ceisiadau canlynol i Gronfa Gymunedol yr Aelodau:

(a) Y Cynghorydd Rhidian Mizen am gofeb i goffáu'r cerddor a'r cyfansoddwr Afan Thomas fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad a ddosbarthwyd.

(b) Y Cynghorwyr Robert Wood, Suzanne Paddison ac Oliver Davies am gyflenwi a gosod pum mainc ychwanegol yn Aqua Splash Aberafan fel y nodir yn Atodiad B yr adroddiad a ddosbarthwyd.

(c) Y Cynghorwyr Wyndham Griffiths, Chris Williams a Jo Hale am uwchraddio llifoleuadau yng Nghlwb Chwaraeon Bryncoch, fel y nodir yn Atodiad C yr adroddiad a ddosbarthwyd.

(ch) Y Cynghorydd Anthony Richards am ddarparu wyth o ddysglau plannu uchel ar gyfer Canol Tref Pontardawe, fel y nodir yn Atodiad D yr adroddiad a ddosbarthwyd.

(d) Y Cynghorwyr Edward Latham, Mathew Crowley a Sean Pursey ar gyfer adnewyddu ac addasu'r ardal sydd ar hyn o bryd yn bedwar cwrt ym Mharc Vivian, fel y nodir yn Atodiad E o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

(dd) Y Cynghorydd Arwyn Woolcock ar gyfer Cyflenwi a Gosod Diffibriliwr yng Nghlwb Rygbi Brynaman, fel y nodir yn Atodiad F yr adroddiad a ddosbarthwyd.

(e) Y Cynghorydd Jane Jones i gynorthwyo'r gwaith o amddiffyn rhag y tywydd ac ailaddurno Neuadd Gymunedol Glowyr Gwynfi, fel y nodir yn Atodiad G yr adroddiad a ddosbarthwyd.

(f) Y Cynghorydd Jeremy Hurley i gaffael offer cynnal a chadw tir hanfodol ar gyfer Clwb Rygbi Tonmawr ym Mhelenna, fel y nodir yn Atodiad H yr adroddiad a ddosbarthwyd.

(ff) Y Cynghorydd Jeremy Hurley i gaffael offer hyfforddi hanfodol ar gyfer adran plant bach ac iau Clwb Rygbi Tonmawr fel y nodir yn Atodiad I yr adroddiad a ddosbarthwyd.

(g) Y Cynghorydd Leanne Jones i gaffael cyfleusterau newid ar ffurf caban symudol ar gyfer timau hŷn ac iau Clwb Rygbi a Chlwb Pêl-droed Tonna, fel y nodir yn Atodiad J yr adroddiad a ddosbarthwyd

(ng) Y Cynghorydd Arwyn Woolcock ar gyfer Cyflenwi a Gosod Diffibriliwr yng Nghlwb a Sefydliad Gweithwyr Tairgwaith, fel y nodir yn Atodiad K yr adroddiad a ddosbarthwyd.

(h) Y Cynghorydd Rob Jones ar gyfer gwelliannau i'r ardal chwarae a yn Ffordd Derwen, Coed Hirwaun, Margam, fel y nodir yn Atodiad L yr adroddiad a ddosbarthwyd.

(i) Y Cynghorydd Arwyn Woolcock i brynu offer caffi ac arlwyo hanfodol ar gyfer Clwb Trotian Dyffryn Aman, fel y nodir yn Atodiad M yr adroddiad a ddosbarthwyd.

(j) Y Cynghorwyr John Warman ac Adam McGrath i sefydlu Clwb Ysgol Goedwig ar gyfer plant sy'n agored i niwed yn Ysgol Gynradd Crynallt, fel y nodir yn Atodiad N yr adroddiad a ddosbarthwyd.

(l) Y Cynghorydd Helen Ceri Clarke i brynu diffibriliwr ar gyfer Clwb Bowlio BP Llandarcy, fel y nodir yn Atodiad O yr adroddiad a ddosbarthwyd.

(ll) Y Cynghorydd Stephanie Lynch ar gyfer cyflenwi a gosod cyfarpar newydd ar gyfer y lle chwarae yn ardal chwarae Bishop's Mead, fel y nodir yn Atodiad P yr adroddiad a ddosbarthwyd.

(m) Y Cynghorydd John Warman i gaffael offer hyfforddi hanfodol ar gyfer timau pêl-droed Plant Bach ac Iau clwb pêl-droed Cimla, a chit newydd ar gyfer tîm newydd dan 11 oed, fel y nodir yn Atodiad Q yr adroddiad a ddosbarthwyd.

(n) Y Cynghorydd Stephen Hunt i gyflenwi a gosod dau drampolîn newydd ar lefel y ddaear ar gyfer y ddarpariaeth chwarae bresennol yng Nghaeau Chwarae Ynysdawley, Nant y Cafn, ym Mhlaendulais, fel y nodir yn Atodiad R yr adroddiad a ddosbarthwyd.

(o) Y Cynghorwyr Anthony Taylor a Rachel Taylor i ategu a gwella'r ddarpariaeth yn ardal chwarae Goytre Close, fel y nodir yn Atodiad S yr adroddiad a ddosbarthwyd.

(p) Y Cynghorydd Anthony Richards i ddatblygu ardal 'sy'n addas i deuluoedd' ar iard Canolfan Dreftadaeth ac Ymwelwyr Pontardawe, fel y nodir yn Atodiad T yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Er mwyn galluogi i geisiadau i Gronfa Gymunedol yr Aelodau gael eu hystyried a'u cymeradwyo.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**